4·74

# ANNERCH

## Y MAB I'R FERCH GYFARFU AR Y RHIW.

### MAB.

Yr eneth hardd oedd ar y rhiw,
A wyt ti heddyw'n iach a byw?
Gobeithio 'rwyf dy fod;
Gobeithiaf na ddaw gofid prudd
I gwrdd a thi na nos na dydd,
Yr eneth hardda' 'rioed.

Y mae sirioldeb yn dy wedd,
Yn tystio fod dy fron mewn hedd,
Y trysor gorau yw;
Rwy'n credu'n gadarn y gwna itti
Gydmares hawddgar iawn i mi,
Tra byddwyf yma'n byw.

Mae aur ag arian, tai a thir,
Rhy fach eu gwerth a dweyd y gwir,
At heddwch dan y fron;
Mae calon lawen, heb ddim dig
Yn well gen i nag aur yn grug,
Yr eneth landeg lon.

Yr eneth fach pa'm 'rwyt yn brudd,
Pa'm rhed y dagrau dros dy rudd,
Na fydded ddim yn hwy;
Cawn bellach fod ein dau yn un,
A threulio'n bywyd yn gytun,
Mewn llawn ddedwyddwch mwy.

Pe bawn yn gwybod y dydd hwn,
Y cawn i di'n gydmares, gwn
Y byddwn ddedwydd iawn;

---

Ail-Argraffiad. Cyhoeddedig dros Gymdeithas Llen Dyffryn Teifi gan J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul. 1905.

Ond achos ofni na chaf byth
O honot ti tra ynwyf chwyth,
   Mewn gofid wyf yn llawn.

Os bydd cyfleusdra genyt, ferch
Ac os y teimli radd o serch
   At fachgen yn y gwydd ;
Na fydded genyt yn ry ffol,
I anfon 'chydig eiriau'n ol
   O gysur im' ryw ddydd.

Os deui yn gydmares im'
Cei weithio pine'n fwy na dim,
   Tra bod ni'n dau yn iach ;
Boed llwyddiant itti ar dy daith,
Gwna hala 'nol heb fod yn faith,
   I ddyffryn Cletwr fach.

[*Thomas Humphreys, Penlon Esger.*]

## ATEB Y FERCH.

Yr himpyn hawddgar teca 'i wawr,
Erioed a droediodd wyneb llawr,
   Yn ol fy ffansi i ;
Ond eto gwn y dywed rhai,
Mai gwyro 'rwyf, fod yn ddilai
   Hawddgarach mab na thi.

Da iawn yw hyn mae'r drefn yn gall,
Tai pawb 'run olwg ar y llall,
   Fe fyddai terfysg mawr ;
Ymryson gwyllt a thywallt gwa'd,
Rhwng bechgyn ieuainc yr holl wlad,
   Er ennill teg ei gwawr.

'Dyw aur ac arian tai a thir,
Ond darfodedig iawn yn wir,
   Yn fynych hedant ffwrdd ;

Anniflanedig gariad syth,
Fo rhyngom ni ein dau dros byth,
   Os cawn y fraint o gwrdd.

Fel geneth fwyn dymunwn fod,
Yn wylaidd ddystaw hyn yw'r nod,
   Wy'n tyny ato clyw ;
Ond cariad a'm gorchfyga'n lan,
Nes dweyd fy nghwyn ar air o gân,
   Wrth un wna'm bron yn friw.

'Does achos i ti chwalu'th fron,
Na chei di fi'n gydmares lon,
   Os dedwydd gelwi hyn ;
'Rwyf at y pwrpas yn ddifeth,
Da gwyddost hyn mai gwir yw'r peth
   Ddod dan y cwlwm tyn.

Wel, bellach, henffych, fab y dydd,
Caf wel'd dy draed yn chwareu'r gwydd
   A minnau wrth y gwaith,
Yn dirwyn pinau trwy fawr serch ;
'Nawr derbyn hyn odd'wrth y ferch
   Sy a'i grudd yn ddigon llaith.

[*David Evans, Maesllan.*]

YMDDYDDAN

# Rhwng y Bardd a'r Gwcw.

O gwcw, O gwcw, b'le buost ti cyd
Cyn dod i'r gym'dogaeth, a aethost yn fud ;
Ti gollaist dy amser bythefnos ymron,
Ti ddest yn y diwedd a'th ganiad yn llon.

Mi godais fy aden yn uchel i'r gwynt,
Gan feddwl bod yma dair wythnos yn gynt;
Nid unrhyw gamsynied, paid meddwl mor ffol,
Ond oerwynt y gogledd a'm cadwodd yn ol.

Os oerwynt y gogledd a'th gadwodd di'n ol,
Pa'm 'raethost ar gerdded, dwed pa'm 'roet mor ffol;
Pa'm na allset lechu mewn rhywle ffordd hyn,
Y'ngelltydd Allt'rodin, neu fron Gwarallt'ryn,

Mae gelltydd Allt'rodin yn wir yn rhy hyll,
Mae Dai Penrhiwceule'n myn'd yno a'i ddryll,
Os dygwydd fy ngweled neu glywed fy llais,
Fe'm saetha os galla yn syth dan fy ais.

Mae Crydd yn byw hefyd wrth fron Gwarallt'ryn,
Dyw'n wiw i mi dreio byw'r gaua ffordd hyn,
Mae hwnw fel filain a'i elfen am ladd,
Pe gallwn ymgyddiwn o'i olwg fel gwadd.

Cyn elot ar gerdded dwed b'le 'rwyt yn myn'd,
Eglura'r dirgelwch i ambell hen ffrynd;
Ddaw neb i dy ganlyn, 'does undyn mor ffol,
Cei eto lawn roesaw pan ddelot yn ol.

O gadw'r dirgelwch, caf heddwch fel hyn,
Ffolineb o'r mwyaf yw dweyd wrth undyn;
Ffarwelwch mewn heddwch ar ddiwedd y gol,
Os byw fyddaf eto returnaf yn ol.

Can ffarwel i tithau, efallai dros oll,
Cyn ddelot ti nesaf bydd canoedd ar goll;
Bydd llawer gwrandawr yn isel ei ben,
Cyn canot un ganiad ar frigyn y pren.

DANIEL JONES, *Molecatcher*, A'I CANT.

['*Sgubor Castell Hywel.*]